# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gofal Cartref Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Coed Pella**
**Conway Road**
**Bae Colwyn**
**LL29 7AZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gofal Cartref Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Awst 2019 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth ledled sir Conwy. Darperir y gwasanaethau o bum ardal leol sy'n cyfateb i'r ardaloedd lleol a ddefnyddir gan y tîm nyrsio cymunedol ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn. Mae hyn yn golygu y gellir gweithredu mewn ffordd fwy integredig â'r bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys gofal cartref a chymorth i oedolion, cynlluniau byw â chymorth i oedolion ag anableddau, cymorth cartref i blant ac oedolion ag anableddau a chynlluniau tai gofal ychwanegol i bobl hŷn.

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal cyson i'r bobl gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y rheolwyr. Mae'r tîm rheoli yn gyson ac yn fanwl ac yn drylwyr ac yn llwyddo i recriwtio a chadw staff yn effeithiol.  Mae'r tîm rheoli yn sefydledig ac mae ganddo systemau monitro cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd da yn cael ei ddarparu.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio eu gofal. Dywedodd teuluoedd a ffrindiau'r bobl wrthym hefyd eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cofnodion gofal yn electronig, yn fanwl ac yn gyfredol. Dywedodd y staff gofal ei bod yn hawdd defnyddio a diweddaru'r cofnodion hyn. Dangosodd y tîm rheoli sut mae'n monitro'r cofnodion gofal a'r gofal a ddarperir gan ddefnyddio'r system hon. Gwelsom fod arferion, dewisiadau a hoffterau unigol y bobl yn cael eu cofnodi a bod y staff gofal yn eu dilyn wrth ddarparu gofal.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan y staff gofal i fod mor iach a gweithgar â phosibl. Mae'r staff gofal yn anelu at roi cymorth i'r bobl fod mor annibynnol â phosibl. Gwneir cysylltiadau priodol â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol fel y bo angen. Mae'r dulliau cyfathrebu yn effeithiol. Mae'r staff gofal a'r tîm rheoli yn hwyluso ac yn annog cysylltiadau a chyfathrebu rhwng y bobl, eu ffrindiau a'u teuluoedd. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu da a nodwyd bod cofnodion da yn cael eu cadw o ran y gofal sydd ei angen ar y bobl ac y maent yn ei dderbyn. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gofal yn effeithlon ac yn ddibynadwy.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag niwed a risgiau. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymateb os bydd eu hanghenion gofal yn newid. Maent yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy y dylid cysylltu os bydd ganddynt bryderon am rywun. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod y staff gofal yn cael hyfforddiant parhaus ar ddiogelu. Mae'r tîm rheoli yn ymateb yn effeithlon pan fydd y staff gofal yn rhoi gwybod iddynt am broblemau. Caiff asesiadau risg priodol eu cynnal mewn perthynas ag amgylchedd y bobl, er mwyn sicrhau diogelwch y bobl a'r staff gofal sy'n ymweld â nhw.

## Gofal a Chymorth

Mae darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod y cynlluniau personol yn gywir ac yn gyfredol, a'u bod yn cynnwys manylion yn nodi sut y dylid rhoi gofal i'r bobl er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Gwelsom sampl o gynlluniau personol. Gwelsom fod anghenion y bobl yn rhan greiddiol o'r broses o gynllunio a darparu gofal. Dangoswyd i ni sut gall y gofalwyr gwblhau'r cofnodion gofal electronig tra byddant gyda'r bobl. Mae'r cofnodion hyn ar gael i bob gofalwr sy'n rhoi gofal i unigolion, a gall y tîm rheoli eu goruchwylio, o unrhyw leoliad. Mae ansawdd y cofnodion gofal yn dda ac yn gywir. Mae trefn y cofnodion gofal yn sicrhau y caiff anghenion, dewisiadau a dymuniadau unigol y bobl eu hystyried yn ystod pob galwad.

Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym fod y staff gofal yn helpu'r bobl i fynychu neu gael ymweliadau/apwyntiadau mewn perthynas â'u hanghenion iechyd ac yn eu galluogi i wneud hynny. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym fod y gwasanaeth yn cyfathrebu â nhw'n rheolaidd ac yn effeithiol, gan nodi fod y staff gofal a'r tîm rheoli yn barod i dderbyn cyngor ac yn rhoi unrhyw newidiadau sydd eu hangen i arferion gofal yr unigolion ar waith yn effeithiol. Gwelsom sampl o'r cofnodion cyfathrebu rhwng y staff gofal, y tîm rheoli, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill. Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodion gofal yn cael eu haddasu pan fydd anghenion gofal yn newid neu pan fydd gweithwyr iechyd proffesiynol neu weithwyr proffesiynol eraill yn rhoi cyngor ac arweiniad.

Mae darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag risg a niwed. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys manylion am y risgiau posibl i unigolion. Maent yn cynnwys asesiadau risg unigol manwl a chyfredol, ac yn cyfeirio at anghenion gofal y bobl a'u hamgylchedd. Mae'r rhaglen hyfforddi yn dangos bod y staff gofal yn cael hyfforddiant parhaus mewn meysydd fel diogelu, cwympo, codi a chario, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n gyfredol; maent yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy y dylid cysylltu os bydd ganddynt bryderon am rywun. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o'r farn bod y gwasanaeth yn ymateb mewn modd effeithlon ac amserol i unrhyw bryderon neu faterion diogelu. Mae'r darparwr yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau a materion diogelu sy'n codi. Caiff y rhain eu cofnodi a'u monitro'n effeithlon. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal eu defnyddio a chyfeirio atynt os bydd ganddynt bryderon am rywun.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n ddidrafferth. Mae hyn yn rhan ganolog o'r gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiweddaru'n ddiweddar ac mae'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom dystiolaeth fod y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd pan fo angen. Maent ar gael i bob aelod o'r staff a'r rheolwyr ac maent yn llywio'r rhaglen hyfforddiant a'r gofal a ddarperir. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio rheolaidd, yn unol â'r trefniadau llywodraethu.

Mae'r darparwr yn goruchwylio ansawdd y gofal a ddarperir yn effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i fonitro'r gofal er mwyn annog gwelliant parhaus. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli yn casglu gwybodaeth ac yn goruchwylio'r broses o fonitro'r gwasanaeth yn barhaus. Maent wedi sefydlu systemau effeithiol a chadarn sy'n gydnaws â'i gilydd. Mae rhan o'r broses fonitro hon yn cynnwys siarad â'r bobl, eu teuluoedd, y staff a gweithwyr proffesiynol. Mae proses archwilio barhaus ar waith er mwyn monitro ansawdd y gofal. Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff y ‘cynnig rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg ei ddarparu i bobl os mai Cymraeg yw eu mamiaith. Mae'n anelu at sicrhau y caiff gofalwyr sy'n siarad Cymraeg eu paru â'r bobl hyn lle y bo'n bosibl.

Mae mesurau effeithiol ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y gwasanaeth, ond gan sicrhau ar yr un pryd bod gwasanaeth o ansawdd da yn cael ei ddarparu. Darperir hyfforddiant i'r staff gofal yn y swyddfeydd, sy'n hygyrch, yn ddigon diogel ac yn ganolog. Er bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar lefelau staffio, bu'r broses ar gyfer recriwtio staff yn barhaus ac yn ddiogel, ac mae'n parhau felly.  Roedd hyn i'w weld yn y cofnodion staffio a dogfennau cyllid y gwasanaeth. Gwelsom sampl o archwiliadau, sy'n dangos prosesau cynllunio ariannol a chynnal a chadw effeithiol ac effeithlon.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/02/2024